# Cyllid busnes

| | |
|---|---|
| DEWI | Dw i angen benthyciad o ddau gan punt, plîs. |
| TERI TWYLLO | Wrth gwrs! Dyma'r fargen orau y caf i - ahem - y cei di! Llog o un deg wyth y cant yr wythnos. Arwydda hwn! |
| AL GEBRA | Dal sownd!<br><br>Al yw'r enw. Ditectif Preifat.<br>'Dw i wedi bod yn cadw llygaid ar Teri Twyllo ers wythnosau.<br><br>O'n i'm yn mynd i adael i'r siarc yna suddo ei ddannedd yn Dewi – byddai'r cnaf yna'n dwyn losin oddi ar grwt bach! |
| DEWI | Dw i'n dechrau busnes crysau-T ac angen benthyciad i brynu argraffydd. |
| AL GEBRA | Os arwyddi di'r cytundeb yna, fe gei di dy ddau gan punt a dy argraffydd, ond bydd gan Teri Twyllo ei ddannedd miniog drewllyd ynot ti am sbel. |
| DEWI | Sut hynny? |
| AL GEBRA | Am bob wythnos fyddi di'n methu â thalu'r ddyled, byddi di'n gorfod talu un deg wyth y cant o ddau gan punt, sy'n dri deg chwe phunt yr wythnos.<br><br>Os fethi di gadw ar ben y taliadau, byddi di'n byw dy fywyd mewn bin sbwriel gyda Teri Twyllo'n dy lygadu ar gyfer ei frecwast, ei ginio a'i de!<br><br>Drycha, mae gen ti ddau gant o bunnoedd o ddyled i'w thalu 'nol? Os cymeri di un deg dau o wythnosau i ddod o hyd i'r arian, byddi di'n talu llog o un deg dau wedi ei luosi gyda thri deg chwe phunt, sy'n bedwar cant tri deg dau o bunnoedd. Mae hynny ar ben y ddau gan bunt fenthycaist di. Byddi di mewn dyled o chwe chant tri deg dau o bunnoedd. |


© Copyright 2016

| | |
|---|---|
| DEWI | Felly, fydda i’n talu pedwar cant tri deg dau o bunnoedd mewn llog ar fenthyciad o ddau gan punt?! |
| AL GEBRA | Nawr, dyma beth wnelwn i. Bydda’n cŵl. Cynila dri deg chwe phunt yr wythnos.<br><br>Ar ôl chwe wythnos, bydd gen ti ddau gant un deg chwe phunt - bron cymaint ag sydd gan dy fam-gu dan ei matres! |
| DEWI | Dau gant un deg chwe phunt?! Mae hynny’n ddigon i brynu’r argraffydd! |
| AL GEBRA | Bingo! Arbeda di tamed bach bob mis ac mi arbeda i ti rhag Teri Twyllo.<br><br>Cês wedi cau! |


© Copyright 2016